Dydd Mercher 14eg Mai

Llu o Dalent o Gymru yn Cannes 2008

Bydd talent ffilm gorau Gymru'n heidio i Ŵyl Ffilm Ryngwladol Cannes eleni, diolch i gefnogaeth Asiantaeth Ffilm Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

"Nid glamor yn unig sydd yno. Mae'r digwyddiad hwn, a gynhelir am yr unfed gwaith a thrigain eleni, yn le i daro bargen a bydd yno gyfle gwych i rwydweithio – mae'n hollbwysig i Gymru gael y gynrychiolaeth orau posib," medd Ieuan Wyn Jones, Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi.

"Byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau fod gwneuthurwyr ffilm o Gymru, a'r cwmnïau cysylltiedig, yn cyfarfod â'r prif wneuthurwyr penderfyniadau, yn cael y cyfle i rwydweithio ac yn gwneud y gorau o bob cyfle i sicrhau busnes."

Bydd tri o sefydliadau allweddol yn cydweithio i gefnogi'r dalent o Gymru - Busnes Creadigol Cymru a Chronfa Eiddo Deallusol Creadigol Cymru (ill dau'n rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru), ynghyd ag Asiantaeth Ffilm Cymru.

Bydd mwy na deg ar hugain o gwmnïau a sefydliadau o Gymru'n mynychu'r ŵyl er mwyn hybu amrediad o ffilmiau - rhai hir, dogfennau, comedïau, ffilmiau antur cynhyrfus, ffilmiau arswyd a ffilmiau byrion.

Bydd y tîm Cymreig yn rhoi cymorth i gwmnïau sy'n chwilio am ffyrdd o godi arian, i ddarganfod partneriaethau newydd ar gyfer cyd-gynyrchiadau, i gwrdd â dosbarthwyr ac asiantwyr, yn ogystal ag i hybu eu ffilmiau.

Bydd manteision ffilmio a chynhyrchu yng Nghymru'n cael ei hyrwyddo'n drylwyr, a darperir gwybodaeth am y lleoliadau, yr adnoddau, yr arian a'r cymorth sydd ar gael.

Busnes fydd y ffocws allweddol, a bydd y cwmnïau Cymreig sy'n mynychu'r ŵyl yn elwa drwy gael: defnyddio man cyfarfod penodedig; derbyniad ar gyfer rhwydweithio gyda chynulleidfa a dargedwyd yn arbennig; statws partner yn y diwydiant yng Nghanolfan Ffilm y DU; a digwyddiadau gwahoddiad yn unig i gwmnïau sydd â diddordeb mewn gwneud busnes yn, a gyda Chymru.

Dywedodd Keith Potter, Pennaeth Talent Asiantaeth Ffilm Cymru:
"Byddwn yn Cannes er mwyn cyfarfod ag arianwyr a dosbarthwyr er mwyn ceisio ennyn eu diddordeb mewn prosiectau fyddwn yn gweithio arnynt yn y dyfodol. Mae'n hynod bwysig i unrhyw un sy'n ymwneud â ffilm fod yn bresennol yn Cannes. Yn ogystal â'r ŵyl ei hun, mae yno farchnad ffilm, a dyma'r ffordd fwyaf effeithiol i gwrdd ag arianwyr ffilm rhyngwladol, asiantwyr gwerthu, dosbarthwyr a chyd-gynhyrchwyr posib. Mae Cannes yn ŵyl ffilm mor bwysig gan ei bod wedi bod yn esblygu dros 61 mlynedd erbyn hyn, ac oherwydd bod ganddi farchnad ffilm hefyd mae'n llwyddiannus dros ben. 'Rydym yn falch o'r dalent sydd gan Gymru i'w gynnig i'r byd ffilm, ac yn edrych ymlaen at helpu newydd-ddyfodiaid a gwneuthurwyr ffilm mwy profiadol i sicrhau cefnogaeth i'w prosiectau."

Am unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r cyfryngau ffoniwch Lisa Jenkins ar

0790 873 8763 neu Leon Griffiths ar 029 2089 8676

Nodiadau i Olygyddion:

Y Cymry yn Cannes:

Eleni bydd nifer o wneuthurwyr ffilm o Gymru'n mynd i Cannes - gŵyl ffilm enwocaf y byd.

Anthony Smith – 'Nocturne'

Bydd Anthony Smith, cynhyrchydd sydd wedi sefydlu ei hun ym Mhort Talbot, yn saethu'r ffilm arswyd *Nocturne* yn Ne Cymru yn ddiweddarach eleni. Ariennir y ffilm gan Asiantaeth Ffilm Cymru ac mae'n adrodd hanes Caleb, y prif gymeriad, dyn sydd ar goll ar y ffordd i unlle. Un noson mae'n darganfod ei hun mewn byd creulon ac anwaraidd; mae wedi baglu i ganol rhyfel goll gyfrinachol lle mae'n rhaid iddo ddarganfod ffydd a dewrder i achub ei fywyd ei hun wrth iddo gael ei erlid gan Sect y Silure sydd am ei waed.

Dwy o sêr *Nocturne* fydd yr actor o Gymro Richard Brake, a ddaeth yn enwog wedi'r ffilm *Hannibal Rising*, a Patrick Bergin, a ymddangosodd ochr yn ochr â Julia Roberts yn 1991 yn y ffilm hynod lwyddiannus *Sleeping with the Enemy*.

Catherine Linstrum – 'Perish'

Perish yw'r sgript ddiweddaraf sy'n cael ei datblygu gan un o awduron mwyaf cyffrous Cymru, Catherine Linstrum, sydd wedi sefydlu'i hun yng Nghasnewydd. Bydd yn cyd-weithio ar y sgript gyda'i gŵr, yr artist David-John Newman.

Wedi gwneud ei début yn Cannes yn 2007 gyda'r ffilm *California Dreamin'* o Rwmania, a ddewiswyd ar gyfer ei dangos yn ystod y 'Directors' Fortnight' enwog, mae gan Linstrum 15 mlynedd o brofiad o ysgrifennu a chyfarwyddo ffilmiau hir, dramâu a dogfennau. Dyma'r tro cyntaf i Linstrum a Newman gyd-weithio ar brosiect ffilm. Mae Newman yn artist a hyfforddwr-bywyd (life-coach) llwyddiannus, a chedwir peth o'i waith mewn casgliadau yn y Bibliothèque Nationale de Paris, y Photographers' Gallery Llundain, ac mewn casgliadau preifat ym Mharis, Efrog Newydd, Tokyo a Llundain.

Julian Richards – 'Summer Scars'

Bydd y cyfarwyddwr Cymreig Julian Richards yn ceisio gwerthu'r ffilm a enillodd wobr BAFTA Cymru iddo, *Summer Scars*.

Saethwyd y ffilm yng Nghymru a cheir ynddi stori am chwech o bobl ifanc pedair ar ddeg mlwydd oed sy'n mitsho'r ysgol er mwyn chwarae yn y goedwig. Mae cyfeillgarwch yn tyfu rhwng y grŵp a'r crwydryn, sydd â'i ymddygiad yn datblygu'n fwyfwy treisgar. Cânt

eu dal yn wystl yn eu ffau a'u gorfodi i gofleidio ochr dywyll y natur ddynol os ydynt am ddod trwyddi.

Cynhyrchwyd gan Julian Richards, Sabina Sattar a Mike Tims, mae'r prif gast yn cynnwys Kevin Howarth o *Gallow Walker*, Ciaran Joyce, Amy Harvey, Jonathan Jones, Darren Evans, Chris Conway a Ryan Conway.

Phil Charles – 'Mr Manchester'

Mae Phil Charles, yr awdur o Gaerdydd, yn datblygu *Mr Manchester,* comedi hir Brydeinig am ddyn heterorywiol sy'n cymryd rhan mewn cystadleuaeth harddwch hoyw. Wedi ei lleoli ym Manceinion, hon yw'r ffilm gyntaf i Snowball Pictures, cwmni cynhyrchu Lee Ruette a Britt Harrison, ei datblygu.

Bydd y gefnogaeth yn Cannes i Wneuthurwyr Ffilm o Gymru'n cynnwys:

- Bydd y cwmnïau Cymreig fydd yn mynd i Cannes yn elwa drwy gael: defnyddio man cyfarfod penodedig; derbyniad ar gyfer rhwydweithio gyda chynulleidfa a dargedwyd yn arbennig; statws partner yn y diwydiant yng Nghanolfan Ffilm y DU, a digwyddiadau gwahoddiad yn unig i gwmnïau sydd â diddordeb mewn gwneud busnes yn, a gyda Chymru.

- Bydd Busnes Creadigol Cymru'n adeiladu ar y cysylltiadau sydd eisoes wedi'u sefydlu rhwng gwneuthurwyr ffilm yng Nghanada ac yng Nghymru, ac a ddatblygwyd drwy fynychu prif wyliau ffilm rhyngwladol Canada.

- Mae cinio ganol dydd drwy wahoddiad yn unig wedi'i drefnu ar gyfer gwneuthurwyr ffilm o Gymru ac o Ganada sy'n gweithio - neu sy'n awyddus i weithio - gyda'i gilydd ar gyd-gynyrchiadau.

- Bydd yno hefyd adnodd busnes arbennig i wneuthurwyr ffilm Cymreig. Bydd hwn ar ffurf fflat sy'n ganolog ar gyfer amrywiol leoliadau'r farchnad (gyferbyn â'r Palais) gydag adnoddau cyfarfod preifat, darpariaeth clyweled, arddangosfa o ddeunyddiau marchnata, ac adnoddau llungopïo/ffacs ayb.

Dod a Ffilm i Gymru:

- Mae'r sectorau ffilm a theledu'n ffynnu yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru, ac mae codi gwariant ar leoliadau yng Nghymru yn un o brif amcanion tîm Creadigol Busnes Cymru sy'n rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac sy'n cynnwys Comisiwn Sgrin Cymru. Am ragor o wybodaeth ewch i: www.ibwales.com/server.php?show=nav.4308

- Crëwyd Cronfa Eiddo Deallusol Creadigol Cymru o £7 miliwn fel rhan o strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Mae'r gronfa'n gweithredu fel "ariannwr bwlch", yn cynnig cyllid am

gynhyrchiad ochor yn ochr ag arian sydd eisoes wedi'i sicrhau gan arianwyr eraill.

- Mae llechen bresennol Asiantaeth Ffilm Cymru'n cynnwys cyngor, adfocatiaeth ac arian ar gyfer saith ffilm hir ryngwladol a mwy na 30 o brosiectau sydd mewn datblygiad. Am wybodaeth bellach ewch i: <http://www.filmagencywales.com/>

- Ariennir Asiantaeth Ffilm Cymru gan Gyngor Celfyddydau Cymru, yr UK Film Council a Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy Busnes Creadigol Cymru. Sefydlwyd yr olaf er mwyn rhoi cymorth, annog ac ehangu'r amrediad a nifer y ffilmiau a gynhyrchir yng Nghymru, a hefyd i feithrin y doreth o dalent greadigol sydd ar gael yma.